



CLILC • WLGA

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

2018-19

Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol

## Rhestr gynnwys

Cyflwyniad.....	1
Nodau llesiant.....	3
Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2018-19 .....	8
Gwasanaethau Corfforaethol .....	15
Addysg .....	18
Gwasanaethau Amgylcheddol .....	26
Tai .....	30
Hamdden a Diwylliant .....	46
Cynllunio.....	58
Gwasanaethau Priffyrdd .....	61
Diogelu'r Cyhoedd .....	67
Gofal Cymdeithasol.....	69
Gwasanaethau Gwastraff .....	76
Dogfen ategol .....	80

## Cyflwyniad

Yn 2016, diddymodd Llywodraeth Cymru Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012, gan ddileu felly y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSI).

Mewn ymateb, ac ar ôl ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), trwy'r Bwyllgor Cydlynu, y dylai grŵp Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad WLGA gael ei sefydlu i ystyried yr angen am fframwaith ar gyfer y dyfodol ar ôl 2016-17, a strwythur y fframwaith hwnnw.

## Fframwaith perfformiad newydd

Cynhwysodd y grŵp Gorchwyl a Gorffen cynrychiolwyr o'r WLGA; Swyddfa Archwilio Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; Data **Cymru** (yn gynt Uned Ddata Cymru) a llywodraeth leol yng Nghymru.

Cytunodd bod angen set o fesurau perfformiad cenedlaethol a fydd:

- yn galluogi llywodraeth leol **i roi cyfrif** am eu perfformiad i'r cyhoedd, gan gynnwys cymharu eu perfformiad â pherfformiad awdurdodau eraill; ac
- yn galluogi'r cyhoedd i **ddal yr awdurdod i gyfrif** dros faterion sydd yn bwysicaf iddynt.

Cytunwyd hefyd y dylai fframwaith newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai unrhyw fesurau newydd ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r cyhoedd a beth *ddylai fod* yn bwysig i'r cyhoedd h.y. beth ddylai llywodraeth leol gael ei ddal i gyfrif amdano, yn eu barn nhw.
- Dylai unrhyw fesurau newydd dynnu ar fframweithiau perfformiad a data sy'n bodoli'n barod lle bynnag y bo'n bosibl i leihau'r baich ar awdurdodau lleol.
- Mae effeithlonrwydd/gwerth am arian yn agwedd allweddol o ddeall perfformiad ac felly, dylai mesurau gost gael ei chynnwys fel **gwybodaeth ategol**.

## Y mesurau

Yn dilyn trafodaethau â chyrff proffesiynol ac uwch swyddogion, cyhoeddwyd set o fesurau a oedd yn diwallu'r meini prawf uchod at ddibenion ymgynghori. Yn sgîl adborth cadarnhaol oddi wrth awdurdodau, cafodd y fframwaith mesur perfformiad diwygiedig ei gymeradwyo yng Nghyngor WLGA ar 31 Mawrth 2017.

Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar newidiadau/ychwanegiadau at y rhestr o fesurau ar gyfer 2018-19. Cafodd y diwygiadau hyn eu cymeradwyo gan Gyngor WLGA ar 23 Mawrth 2018. Gwelir manylion y mesurau yn y ddogfen hon.

Mae'r fframwaith diwygiedig hwn yn cynnig trosolwg eglur a syml o berfformiad llywodraeth leol a sut mae'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Ar lefel leol mae'r fframwaith yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio mesurau perfformiad lleol priodol, sy'n cyd-fynd ag amcanion gwella/llesiant pob awdurdod lleol ei hun. Bydd y rhain yn darparu atebolrwydd uniongyrchol i'r cymunedau lleol, a naratif lleol ar eu cyfer.

Mae yna feysydd o fudd y cyhoedd lle nad yw mesurau cenedlaethol ar gael neu lle byddant yn rhy gymhleth i'w datblygu'n gyson e.e. cynhaliaeth y gaeaf. Byddwn yn adolygu'r rhain yn gyson. Yn absenoldeb ymagwedd genedlaethol, gellir hefyd parhau i ymdrin â'r rhain drwy drefniadau rheoli perfformiad lleol.

### **Datblygiadau yn y dyfodol**

Caiff y fframwaith mesur perfformiad ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau:

- perthnasedd parhaus mesurau;
- bod mesurau'n cael eu diweddarau pen fo angen; a
- bod unrhyw fesurau perfformiad perthnasol sydd newydd eu creu yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys.

## Nodau llesiant

Dengys y tabl isod sut y gall pob un o'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus helpu awdurdodau lleol i ddangos sut maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant.

Mesur		Cymru lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>								
PAM/001	Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd salwch fesul gweithiwr	✓		✓				
<b>Addysg</b>								
PAM/006 (Wedi ei ddileu)	Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni 5 TGAU o graddau A*-C neu'n gyfwerth, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith cyntaf a Mathemateg  <b>Mesur wedi ei ddileu.</b>							
PAM/032 (Newydd)	Sgôr 'Cap 9'	✓			✓			
PAM/007	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	✓		✓	✓			
PAM/008	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	✓		✓	✓			
PAM/009 (Disodli)	Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)  <b>Mesur yma yn cael ei disodli.</b>							

Mesur		Cymru lewyrchus	Cymru Gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
PAM/046 (Newydd)	Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)	✓			✓			
PAM/033 (Newydd)	Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen	✓			✓		✓	
PAM/034 (Newydd)	Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf)	✓			✓		✓	
<b>Gwasanaethau Amgylcheddol</b>								
PAM/010	Canran y strydoedd sy'n lân		✓	✓		✓		
PAM/011 (Wedi ei ddileu)	Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 niwrnod  <b>Mesur wedi ei ddileu.</b>							
PAM/035 (Newydd)	Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon		✓	✓		✓		
<b>Tai</b>								
PAM/012	Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref			✓	✓	✓		
PAM/013	Canran o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd				✓	✓		

Mesur		Cymru lewyrchus	Cymru Gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
PAM/014	Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ddechrau aildefnyddio eiddo gwag			✓	✓	✓		
PAM/015	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl			✓	✓	✓		
PAM/036 (Newydd)	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd			✓	✓	✓		
PAM/037 (Newydd)	Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau			✓	✓	✓		
PAM/038 (Newydd)	Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)	✓		✓	✓	✓		
PAM/039 (Newydd)	Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag	✓			✓	✓		
<b>Hamdden a Diwylliant</b>								
PAM/016 (Wedi ei ddileu)	Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth <b>Mesur wedi ei ddileu.</b>							
PAM/040 (Newydd)	Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	

Mesur		Cymru lewyrchus	Cymru Gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
PAM/017	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth			✓	✓		✓	
PAM/041 (Newydd)	Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff			✓	✓		✓	
PAM/042 (Newydd)	Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff			✓	✓			
<b>Cynllunio</b>								
PAM/018	Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	✓	✓			✓		
PAM/019	Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	✓	✓			✓		
<b>Gwasanaethau Priffrdd</b>								
PAM/020	Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael	✓	✓			✓		
PAM/021	Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael	✓	✓			✓		
PAM/022	Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael	✓	✓			✓		
<b>Diogelu'r Cyhoedd</b>								
PAM/023	Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd			✓		✓		
<b>Gofal Cymdeithasol</b>								



Mesur		Cymru lewyrchus	Cymru Gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
PAM/024	Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth	✓		✓	✓	✓		
PAM/025	Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed			✓	✓	✓		
PAM/026	Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi			✓	✓	✓		
PAM/027	Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth	✓		✓	✓	✓		
PAM/028	Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser			✓	✓	✓		
PAM/029	Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy	✓		✓	✓	✓		
<b>Gwasanaethau Gwastraff</b>								
PAM/030	Canran y gwastraff wedi'u aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio	✓	✓	✓				✓
PAM/031 (Wedi ei ddileu)	Canran y gwastraff a anfonir i safle tirlenwi <b>Mesur wedi ei ddileu.</b>							
PAM/043 (Newydd)	Cilogramau y gwastraff cartref gweddilliol a eneradir fesul person	✓	✓	✓				✓

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2018-19

Isod gwelir rhestr o'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) ar gyfer 2018-19. Mae'r set ddata hon wedi cael ei datblygu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad WLGA, mewn ymgynghoriaeth ag awdurdodau lleol. Mae 'ID' wedi ei aseinio i bob mesur er hwylustod wrth gyfeirio atynt.

Mae 'dull' wedi ei aseinio i bob eitem ddata sy'n nodi sut y byddwn yn cael y data. Bydd y data yn naill ai:

**Casglu** – byddwn yn casglu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau lleol; neu

**Poblogi** – byddwn yn cyrchu'r data yma yn annibynnol.

Am ragor o wybodaeth am y setiau data defnyddiwch yr hyperddolenni isod.

Dylai unrhyw ymholiadau am y set ddata hon gael eu cyfeirio at [pienquiries@data.cymru](mailto:pienquiries@data.cymru)

ID	Mesur		Dull
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>			
<a href="#">PAM/001</a>	Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd salwch fesul gweithiwr	Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd salwch	Casglu
		Nifer y gweithwyr cyflogedig ar gyfartaledd	Casglu
<b>Addysg</b>			
<a href="#">PAM/032</a>	Sgôr 'Cap 9'		Poblogi
<a href="#">PAM/007</a>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	Nifer y sesiynau ysgolion cynradd wedi'u colli	Poblogi
		Nifer y sesiynau ysgolion cynradd	Poblogi

ID	Mesur		Dull
<a href="#">PAM/008</a>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	Nifer y sesiynau ysgolion uwchradd wedi'u colli	Poblogi
		Nifer y sesiynau ysgolion uwchradd	Poblogi
<a href="#">PAM/046</a>	Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)	Nifer y gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)	Poblogi
		Nifer y gadawyr Blwyddyn 11	Poblogi
<a href="#">PAM/033</a>	Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen	Nifer y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen	Poblogi
		Nifer y disgyblion yn y flwyddyn derfynol o'r Cyfnod Sylfaen	Poblogi
<a href="#">PAM/034</a>	Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf)	Nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf)	Poblogi
		Nifer y disgyblion yn Flwyddyn 11	Poblogi
<b>Gwasanaethau Amgylcheddol</b>			
<a href="#">PAM/010</a>	Canran y strydoedd sy'n lân	Nifer y strydoedd sy'n lân	Casglu
		Nifer yr archwiliadau	Casglu

ID	Mesur	Dull	
<a href="#">PAM/035</a>	Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	Nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	Casglu
		Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd	Casglu
<b>Tai</b>			
<a href="#">PAM/012</a>	Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref	Nifer y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref	Poblogi
		Nifer y teuluoedd a fgythiwyd â digartrefedd	Poblogi
<a href="#">PAM/013</a>	Canran o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd	Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd	Casglu
		Nifer o eiddo sector preifat gwag	Casglu
<a href="#">PAM/014</a>	Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ddechrau aildefnyddio eiddo gwag		Casglu
<a href="#">PAM/015</a>	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ddarparu DFG	Casglu
		Nifer y DFGs a ddarparwyd	Casglu
<a href="#">PAM/036</a>	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir	Poblogi

ID	Mesur		Dull
		Nifer o aelwydydd	Poblogi
<a href="#">PAM/037</a>	Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau	Nifer y diwrnodau i cwblhau holl atgyweiriadau yn ystod y flwyddyn	Casglu
		Nifer yr atgyweiriadau wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn	Casglu
<a href="#">PAM/038</a>	Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)	Nifer y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)	Poblogi
		Nifer y cartrefi	Poblogi
<a href="#">PAM/039</a>	Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag	Cyfanswm y rhent wedi'i golli yn ystod y flwyddyn oherwydd bod eiddo yn wag	Casglu
		Cyfanswm y debyd rhent am y flwyddyn	Casglu
<b>Hamdden a Diwylliant</b>			
<a href="#">PAM/040</a>	Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd	Nifer y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd	Casglu
		Nifer y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau)	Casglu

ID	Mesur	Dull	
<a href="#">PAM/017</a>	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden	Casglu
		Cyfanswm y boblogaeth	Poblogi
<a href="#">PAM/041</a>	Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff	Nifer cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff	Poblogi
		Nifer y cleientiaid NERS a ddechreuodd y rhaglen ymarfer corff	Poblogi
<a href="#">PAM/042</a>	Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff	Nifer cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff	Poblogi
		Nifer cleientiaid NERS a gwblhaodd holiadur gweithgarwch corfforol ar ôl 16-wythnos	Poblogi
<b>Cynllunio</b>			
<a href="#">PAM/018</a>	Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	Nifer yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	Poblogi
		Nifer yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd	Poblogi
<a href="#">PAM/019</a>	Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	Nifer yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	Poblogi

ID	Mesur	Dull
		Nifer yr apeliadau cynllunio a benderfynwyd
<b>Gwasanaethau Priffyrdd</b>		
<a href="#">PAM/020</a>	Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael	Cilomedrau o ffyrdd A mewn cyflwr gwael
		Cilomedrau o ffyrdd A wedi'u harolygu
<a href="#">PAM/021</a>	Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael	Cilomedrau o ffyrdd B mewn cyflwr gwael
		Cilomedrau o ffyrdd B wedi'u harolygu
<a href="#">PAM/022</a>	Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael	Cilomedrau o ffyrdd C mewn cyflwr gwael
		Cilomedrau o ffyrdd C wedi'u harolygu
<b>Diogelu'r Cyhoedd</b>		
<a href="#">PAM/023</a>	Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd	Nifer y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd
		Nifer y sefydliadau bwyd
<b>Gofal Cymdeithasol</b>		
<a href="#">PAM/024</a>	Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth	
<a href="#">PAM/025</a>	Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed	Nifer o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol

ID	Mesur	Dull
		Poblogaeth 75+ oed
<a href="#">PAM/026</a>	Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi	Poblogi
<a href="#">PAM/027</a>	Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth	Poblogi
<a href="#">PAM/028</a>	Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser	Nifer yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser
		Nifer yr asesiadau plant a gwblhawyd
<a href="#">PAM/029</a>	Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy	Nifer y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy
		Nifer y plant sy'n derbyn gofal
<b>Gwasanaethau Gwastraff</b>		
<a href="#">PAM/030</a>	Canran y gwastraff wedi'u aildefnyddio, ailgylchu a chompostio	Tunelledd o wastraff wedi'u aildefnyddio, ailgylchu a chompostio
		Tunelledd o wastraff a gasglwyd
<a href="#">PAM/043</a>	Cilogramau y gwastraff cartref gweddilliol a eneradir fesul person	Cilogramau y gwastraff cartref gweddilliol
		Cyfanswm y boblogaeth



**Gwasanaethau Corfforaethol**

<b>Thema</b>	Gwasanaethau Corfforaethol: Absenoldeb oherwydd salwch
<b>Mesur</b>	Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALL) oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn
<b>ID</b>	PAM/001
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt CHR/002
<b>Diffiniad</b>	<p>Mae hyn yn fesur y nifer o diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch tymor hir a salwch tymor byr.</p> <p>Mae salwch tymor byr yn cael ei ddiffinio fel absenoldeb mewn un sbel sy'n para llai nag 28 diwrnod calendr yn olynol.</p> <p>Mae salwch tymor hir yn cael ei ddiffinio fel absenoldeb mewn un sbel sy'n para 28 diwrnod calendr yn olynol neu fwy. Cynhwyswch y rheiny sydd ar salwch hirdymor, sydd ddim yn cael eu talu rhagor, ond sydd dal yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol.</p> <p>Mae'r nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith colledig oherwydd salwch yn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diwrnodau colledig oherwydd salwch wedi'i achosi gan anabledd, salwch hir dymor, damweiniau trydydd parti ac anafiadau diwydiannol.</li> </ul> <p>Mae'n eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• apwyntiadau meddygol (e.e. ar gyfer y meddyg, deintydd, optegydd, ysbyty, bydwagedd a.y.b.) gan ystyrir y rhain yn absenoldebau â chaniatâd arbennig.</li> </ul> <p>Mae 'sifftiau/diwrnodau gwaith' yn golygu diwrnodau/sifftiau sy'n cael eu hamserlennu ar gyfer gwaith. Os yw gweithwyr cyflogedig i fod i weithio ar wyliau banc/gwyliau statudol eraill ac maent i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, mae eu habsenoldeb oherwydd salwch cael ei chynnwys.</p> <p>Mae gweithiwr awdurdod lleol yn person sy'n gyflogedig ac yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol (naill ai'n llawn neu'n rhannol), sydd naill ai ar</p>

	<p>gytundeb parhaol, neu ar unrhyw gytundeb cyfnod penodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau dros dro/ pen-agored i gyflenwi, er enghraifft, dros absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth.</p> <p>Caiff y nifer o weithwyr CALL ar gyfartaledd ei gyfrifo wrth adio'r nifer o weithwyr CALL ar 31 Mawrth y flwyddyn blaenorol gyda'r nifer o weithwyr CALL ar 31 Mawrth y flwyddyn presennol, ac yna rhannu'r canlyniad â 2.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur
<b>Rhifiadur</b>	
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd absenoldeb salwch
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	
<b>Enwadur</b>	Nifer y gweithwyr cyflogedig ar gyfartaledd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALL) ar gyfartaledd
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Dyma gyfanswm y nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith sy'n golledig oherwydd salwch tymor hir a salwch tymor byr.</p> <p>Wrth gyfri'r nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith colledig oherwydd salwch, cynhwyswch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwrnodau colledig oherwydd salwch wedi'i achosi gan anabledd, salwch hir dymor, damweiniau trydydd parti ac anafiadau diwydiannol.</li> </ul> <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Apwyntiadau meddygol (e.e. ar gyfer y meddyg, deintydd, optegydd, ysbyty, bydwragedd a.y.b.) gan ystyrir y rhain yn absenoldebau â chaniatâd arbennig.</li> </ul> <p>Mae gweithiwr awdurdod lleol yn person sy'n gyflogedig ac yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol (naill ai'n llawn neu'n rhannol), sydd naill ai ar gytundeb parhaol, neu ar unrhyw gytundeb cyfnod penodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau dros dro/ pen-agored i gyflenwi, er enghraifft, dros absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth.</p> <p>Ac eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Person sy'n gyflogedig ac yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol (naill ai'n llawn neu'n rhannol) sydd ddim ar gytundeb parhaol, ond ar gytundeb cyfnod penodol tymhorol;</li> <li>• Person sydd ddim yn gysylltiedig gyda'r awdurdod lleol, dim ar unrhyw fath o gytundeb gwasanaeth, lle does dim rhwymedigaeth gan yr awdurdod i gynnig yr oriau, a dim</li> </ul>	

rhwymedigaeth i'r person i dderbyn yr oriau hyn. Gall gweithwyr wrth gefn ac athrawon cyflenwi dod o dan y categori hwn;

- Person sydd ddim yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol a dim ar unrhyw fath o gytundeb, ond sy'n gweithio'n yn ôl gofyn yr awdurdod lleol, ac yn gyflogedig ac yn cael ei dalu gan asiantaeth cyflogi, sydd ddim ar gyflogres yr awdurdodau lleol;
- Person a gyflogir gan yr awdurdod lleol ar gontract dim oriau.

Mae'r data yn cael ei gasglu ar wahân ar gyfer 'Athrawon' a 'Staff (ac eithrio athrawon)'. Dylai staff ysgol gael eu cynnwys fel 'Staff (ac eithrio athrawon)'. Dylid cynnwys swyddi arweinyddiaeth e.e. penaethiaid, dirprwy benaethiaid ac athrawon pennaeth cynorthwyol ac ati fel 'Athrawon'.

Mae 'sifftiau/diwrnodau gwaith' yn golygu diwrnodau/sifftiau sy'n cael eu hamserlennu ar gyfer gwaith. Os yw gweithwyr cyflogedig i fod i weithio ar wyliau banc/gwyliau statudol eraill ac maent i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, dylai eu habsenoldeb oherwydd salwch cael ei chynnwys.

Os ydy gweithiwr cyflogedig yn adrodd ei fod yn sâl yn ystod diwrnod/sifft gwaith, dylai'r awdurdod cofnodi'r wybodaeth i'r hanner diwrnod/sifft gwaith agosaf.

Ar gyfer gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio rhan amser, dylai'r awdurdod cyfrifo cyfwerth yr amser llawn (CALI) ar gyfer yr enwadur a'r rhifiadur yn gyson.

Mae'r canlynol yn esiampl o sut i gyfrifo CALI ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Os ydy gweithiwr cyflogedig llawn amser yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos, mae'r cywerthoedd canlynol yn gymwys:

1 gweithiwr cyflogedig llawn amser = 1

Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 2 ½ diwrnod = 0.5

Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 3 diwrnod = 0.6

Os yw gweithiwr cyflogedig llawn amser yn gweithio 40 awr yr wythnos, mae'r cywerthoedd canlynol yn gymwys:

1 gweithiwr cyflogedig amser llawn = 1

Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 16 awr = 0.4

Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 30 awr = 0.75

Os bydd aelod staff amser llawn yn gweithio 52 wythnos y flwyddyn, mae'r cyfatebiaethau canlynol yn gymwys:

1 aelod staff amser llawn = 1

Aelod staff sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig h.y. 39 wythnos = 0.75 (39/52)

Dylai diwrnod cael ei seilio ar y nifer o oriau wedi'u contractio ar gyfer gweithiwr cyflogedig.

**Addysg**

<b>Theme</b>	Addysg: Cyrhaeddiad – Cyfnod Allweddol 4
<b>Measure</b>	Sgôr 'Cap 9'
<b>Technical title</b>	Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11
<b>ID</b>	PAM/032
<b>Other IDs</b>	-
<b>Definition</b>	<p>Cyfrifwyd y Sgôr 'Cap 9' ar gyfer pob dyswyr gan ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y canlyniad gorau (gradd uchaf) yn TGAU Iaith Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf (Ni chaiff cymwysterau llenyddiaeth eu cynnwys yma)</li> <li>• Y canlyniad gorau (gradd uchaf) yn TGAU Mathemateg – Rhifedd</li> <li>• Y canlyniad gorau (gradd uchaf) yn TGAU Mathemateg</li> <li>• Y ddau ganlyniad gorau yn Wyddoniaeth, TGAU neu gymhwyster cyfatebol (ni chaiff cywerthedd eu cyfrif).</li> <li>• Y pedwar canlyniad gorau mewn pynciau arall. TGAU neu gymwysterau cyfatebol, gan gynnwys unrhyw gymwysterau gwyddoniaeth neu lenyddiaeth heb eu cynnwys yn y categorïau uchod.</li> </ul> <p>Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog fel cyfartaledd y sgoriau a gyflawnwyd gan bob dysgwr ym Mlwyddyn 11 mewn ysgolion uwchradd, canol neu arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol ac unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau EOTAS arall.</p>
<b>Sourced from</b>	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Addysg: Presenoldeb – ysgolion cynradd
<b>Mesur</b>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd
<b>Teitl technegol</b>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd
<b>ID</b>	PAM/007
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt EDU/016a
<b>Diffiniad</b>	<p>Ystyrir presenoldeb fel bod yn bresennol neu ar weithgareddau addysgol wedi'u cymeradwyo.</p> <p>Mae'r wybodaeth am bresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cyfeirio'n bennaf at ddisgyblion oedran ysgol gorfodol h.y. y sawl 5 i 10 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd.</p> <p>Nid yw disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion (PRUs), ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys.</p> <p>Caiff canran presenoldeb ei gyfrifo wrth dynnu'r canran o sesiynau wedi'u colli oherwydd absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac yn anawdurdodedig o 100%.</p> <p>Mae yna ddau sesiwn pob dydd - un yn y bore ac un yn y prynhawn.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	1 - (Rhifiadur/Enwadur x 100)
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y sesiynau ysgolion cynradd wedi'u colli
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y sesiynau wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd
<b>Ffynhonnell</b>	Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru
<b>Enwadur</b>	Nifer y sesiynau ysgolion cynradd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y sesiynau posib ar gyfer yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd
<b>Ffynhonnell</b>	Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Addysg: Presenoldeb - ysgolion uwchradd
<b>Mesur</b>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd
<b>Teitl technegol</b>	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd
<b>ID</b>	PAM/008
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt EDU/016b
<b>Diffiniad</b>	<p>Ystyrir presenoldeb fel bod yn bresennol neu ar weithgareddau addysgol wedi'u cymeradwyo.</p> <p>Mae'r wybodaeth am absenoldiaeth mewn ysgolion uwchradd yn cyfeirio at ddisgyblion ysgolion cynradd o oedran ysgol gorfodol h.y. y sawl sy'n 11 i 15 oed.</p> <p>Nid yw disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion (PRUs), ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys.</p> <p>Caiff canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd ei fesur o ddechrau'r flwyddyn ysgol ac yn gorffen ar ddyddiad yr ail wyl y banc ym mis Mai.</p> <p>Caiff canran presenoldeb ei gyfrifo wrth dynnu'r canran o sesiynau wedi'u colli oherwydd absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac yn anawdurdodedig o 100%.</p> <p>Mae yna ddau sesiwn pob dydd - un yn y bore ac un yn y prynhawn.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	1 - (Rhifiadur/Enwadur x 100)
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y sesiynau ysgolion uwchradd wedi'u colli
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y sesiynau wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd
<b>Ffynhonnell</b>	Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru
<b>Enwadur</b>	Nifer y sesiynau ysgolion uwchradd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y sesiynau posib ar gyfer yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd

Ffynhonnell	Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru
-------------	--

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Addysg: Gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)
<b>Mesur</b>	Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)
<b>Teitl technegol</b>	Canran gadawyr Blwyddyn 11 y gwyddyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)
<b>ID</b>	PAM/046
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Gadawyr Blwyddyn 11 yw'r disgyblion hynny sydd wedi cyrraedd oedran gadael ysgol statudol.</p> <p>Mae'r garfan hon yn cynnwys disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sy'n parhau mewn addysg amser llawn neu ran amser;</li> <li>• sydd mewn dysgu seiliedig ar waith;</li> <li>• sydd mewn cyflogaeth;</li> <li>• y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET);</li> <li>• sydd wedi gadael yr ardal; ac</li> <li>• na wnaethant ymateb i'r arolwg.</li> </ul> <p>Cynhwysir disgyblion o ysgolion arbennig yn yr arolwg; ni chynhwysir y sawl sy'n mynychu colegau AB ac ysgolion annibynnol.</p> <p>Mae gadawyr y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) yn cynnwys y sawl nad ydynt ar gael am waith a'r sawl sydd wedi cofrestru gyda chwmnïau gyrfaedd fel bod yn ddi-waith.</p> <p>Cofnodir yr wybodaeth am gyrchfan o ganlyniad i weithgaredd hysbys y disgybl ar 31 Hydref y flwyddyn adrodd.</p> <p><b>Nodyn:</b> Mae cynnwys y mesur hwn yn ddibynnol ar gyhoeddi'r data.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)



Teitl technegol	Nifer y gadawyr Blwyddyn 11 y gwyddir nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)
Ffynhonnell	Arolwg blynyddol o adawyr ysgol, Gyrfa Cymru
Enwadur	Nifer y gadawyr Blwyddyn 11
Teitl technegol	Nifer y gadawyr Blwyddyn 11
Ffynhonnell	Arolwg blynyddol o adawyr ysgol, Gyrfa Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Addysg: Addysg cyfrwng Cymraeg – Cyfnod Sylfaen
<b>Mesur</b>	Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
<b>Teitl technegol</b>	Canran y disgyblion a dderbyniodd asesiad athro mewn laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
<b>ID</b>	PAM/033
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Rhaid i bob disgybl ym mlwyddyn olaf y Cyfnod Sylfaen gael ei asesu drwy asesiadau athrawon. Un o'r meysydd dysgu mandadol yw laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu (yn Saesneg (LCE) neu'r Gymraeg (LCW)).</p> <p>Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar y disgyblion hynny a dderbyniodd asesiad athro mewn laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg.</p> <p>Bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn saith oed ac yn flwyddyn 2 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.</p> <p><b>Nodyn:</b> Mae cynnwys y mesur hwn yn ddibynnol ar gyhoeddi'r data.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y disgyblion a dderbyniodd asesiad athro mewn laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
<b>Ffynhonnell</b>	Casgliad data asesiadau athrawon cenedlaethol, Llywodraeth Cymru
<b>Enwadur</b>	Nifer y disgyblion yn y flwyddyn derfynol o'r Cyfnod Sylfaen
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y disgyblion yn y flwyddyn derfynol o'r Cyfnod Sylfaen ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig
<b>Ffynhonnell</b>	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Llywodraeth Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Addysg: Addysg cyfrwng Cymraeg – Cyfnod Allweddol 4
<b>Mesur</b>	Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf)
<b>Teitl technegol</b>	Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gofrestrwyd i sefyll TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf)
<b>ID</b>	PAM/034
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Caiff unrhyw arholiadau a gyflawnir cyn i'r disgybl gyrraedd Blwyddyn 11 eu dal yn ôl a'u cynnwys yn y flwyddyn ysgol mae'r disgybl yn mynd i mewn i Flwyddyn 11.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys pob disgybl a gofrestrwyd fel bod ar y gofrestr ym Mlwyddyn 11 mewn ysgol a gynhelir neu a ariennir gan awdurdod lleol ar ddiwrnod y cyfrifiad blynyddol ysgolion ym mis Ionawr. Mae hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion (PRUs) a disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol (EOTAS) sydd heb fynychu PRU.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf)
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y disgyblion Blwyddyn 11 a gofrestrwyd i sefyll TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf)
<b>Ffynhonnell</b>	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru
<b>Enwadur</b>	Nifer y disgyblion yn Flwyddyn 11
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y disgyblion yn Flwyddyn 11
<b>Ffynhonnell</b>	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Llywodraeth Cymru

**Gwasanaethau Amgylcheddol**

<b>Thema</b>	Gwasanaethau Amgylcheddol: Strydoedd glân
<b>Mesur</b>	Canran y strydoedd sy'n lân
<b>Teitl technegol</b>	Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol
<b>ID</b>	PAM/010
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt STS/005b
<b>Diffiniad</b>	Caiff 'glendid o safon uchel neu dderbyniol' ei diffinio fel ennill Graddau A, B+ neu B o'r Côt Ymarfer Sbwriel (2007), sef: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd A Dim sbwriel</li> <li>• Gradd B+ Dim mwy na 3 darn bach o sbwriel</li> <li>• Gradd B Yn rhydd o sbwriel yn bennaf, ar wahân i rai eitemau bach</li> </ul>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y strydoedd sy'n lân
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol a Cadwch Gymru'n Daclus*
<b>Enwadur</b>	Nifer yr archwiliadau
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr archwiliadau o briffyrdd
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol a Cadwch Gymru'n Daclus*
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>I gyfrifo'r mesur, rhaid i'r arolygon canlynol cael eu cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 6 arolwg pob deufis wedi'u seilio ar archwiliadau o 2% o'r priffyrdd mabwysiedig yr awdurdod, wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol neu sefydliad wedi'i gontractio i gynnal y gwaith ar ei ran.</li> <li>• Arolwg/ylgon blynyddol annibynnol wedi'i seilio ar sampl o leiafswm o 6% o'r archwiliadau o'r priffyrdd mabwysiedig awdurdod wedi'i gynnal gan Cadwch Gymru'n Daclus. *Caiff y data hwn ei rag-boblogi yn y ffurflen casglu data.</li> </ul>	

Cynhwyswch yr holl ffyrdd lle'r awdurdod lleol yw'r awdurdod priffyrdd, h.y. yr holl ffyrdd ac eithrio:

- Traffyrdd;
- Cefnffyrdd; a
- ffyrdd preifat ac/neu heb eu mabwysiadu.

Peidiwch â chynnwys tir sydd dan reolaeth ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol neu ei bwrdd llywodraethwyr, neu dir sydd dan reolaeth cymdeithas tai.

Ymgarthion ci i'w trin fel sbwriel.

Dylai arolygon delio â thrawsluniau/strydoedd ar gyfer y ffyrdd canlynol o ddefnyddio tir:

- manwerthu, swyddfa, masnachol;
- tir ar gyfer tai;
- ardaloedd diwydiannol; a
- hewlydd.

Cewch hyd i gyfarwyddyd pellach yn Atodiad A y Côd Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff 2007.

Ar gyfer yr arolygon pob deufis dylai o leiaf 2% o'r strydoedd cael eu harchwilio bob deufis. Gall y sampl ar hap ddelio â'r un strydoedd mewn gwahanol fisoedd (e.e. fe all y samplau croesi), neu hyd yn oed yn golygu dau archwiliad ar wahanol fannau o'r un stryd o fewn yr un mis, lle credir bod hyn yn briodol ar gyfer strydoedd hirach neu fwy prysur. Ond rhaid i'r nifer o archwiliadau fod yn gyfwerth â 2% o gyfanswm y nifer o strydoedd yn yr awdurdod.

Rhaid i'r rhaglen sampl fod yn gynrychiadol o'r holl awdurdod o ran lleoliad y strydoedd a chytbwysedd y strydoedd. Dylai'r archwiliadau cael eu cynnal ar wahanol amseroedd - ac eithrio monitro wedi'i gynnal ar ôl glanhau at bwmpas monitro cytundeb glanhau'r strydoedd. Er hynny, byddai monitro ar hap o gontract sydd wedi ei seilio ar allbwn yn dderbyniol.

'Archwiliad' yw archwiliad gweledol o hyd stryd 50 metr (trawslun) yn erbyn safonau ffotograffig wedi'u nodi yn y Côt Ymarfer ar Sbwriel (2007) neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r Côt. Caiff y strydoedd eu graddio fel naill ai Gradd A, Gradd B+, Gradd B, Gradd C neu Gradd D.

Ar gyfer yr arolygon annibynnol:

- Disgwylir awdurdodau lleol i roi rhestr o'r holl briffyrdd mabwysiedig ar gyfer y ffyrdd uchod o ddefnyddio tir i Cadwch Cymru'n Daclus erbyn 1 Ebrill pob blwyddyn. Dylai'r rhestr nodi ym mha ffordd y mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ble mae'r priffyrdd yn cwmpo ynddo

Fe fydd Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg/ygon angyhoeddedig o 6% o briffyrdd. Fe fydd Cadwch Gymru'n Daclus yn darparu adroddiad i'r awdurdod lleol perthnasol o'r arolwg/ygon o fewn 1 mis o gwblhau'r arolwg.

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Gwasanaethau Amgylcheddol: Tipio anghyfreithlon
<b>Mesur</b>	Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon
<b>Teitl technegol</b>	Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd i'r awdurdod yn ystod y flwyddyn
<b>ID</b>	PAM/035
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Gall digwyddiad o dipio anghyfreithlon cael ei ddiffinio fel casgliad o wastraff tipio anghyfreithlon e.e. gwastraff sy'n rhy fawr i'w symud gyda berfa sgubo arferol. Yn syml, byddai bag bin sengl lawn neu'n fwy yn golygu digwyddiad tipio anghyfreithlon. Byddai nifer o fagiau plastig llawn sbwriel wedi eu gwaredu gyda'i gilydd hefyd yn golygu digwyddiad sengl o dipio anghyfreithlon.</p> <p>Caiff nifer y diwrnodau gwaith y mae'n cymryd i glirio digwyddiad tipio anghyfreithlon eu cyfri o'r dyddiad cyntaf caiff y digwyddiad ei adrodd i/dod i sylw'r awdurdod lleol trwy unrhyw fodd, (gan gynnwys gan ei staff) hyd at y dyddiad caiff y gwastraff ei glirio gan yr awdurdod lleol, ei chontractwyr, sefydliad/busnes elusennol neu'r cyflawnwr.</p> <p>Ystyr 'clirio' yw bod y gwastraff tipio anghyfreithlon yn cael ei symud gan yr awdurdod lleol, ei gontractwyr, sefydliad/busnes elusennol neu'r cyflawnwr.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd i'r awdurdod yn ystod y flwyddyn
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn

Ffynhonnell	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Caiff nifer y diwrnodau gwaith y mae'n cymryd i glirio digwyddiad tipio anghyfreithlon eu cyfri o'r dyddiad cyntaf caiff y digwyddiad ei adrodd i/dod i sylw'r awdurdod lleol trwy unrhyw fodd, (gan gynnwys gan ei staff) hyd at y dyddiad caiff y gwastraff ei glirio gan yr awdurdod lleol, ei gontractwyr, sefydliad/busnes elusennol neu'r cyflawnwr. Os caiff digwyddiad ei glirio yr un diwrnod ag y caiff ei adrodd byddai'n cael ei gofnodi fel <b>dim</b> diwrnod gweithio.</p> <p>Cynhwyswch bob digwyddiad tipio anghyfreithlon a gafodd ei glirio yn ystod y flwyddyn, ni waeth pryd y cawsant eu hadrodd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiadau a adroddwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a gliriwyd yn y flwyddyn ariannol bresennol.</p> <p>Efallai y bydd y Meini Prawf Derbyn Gwastraff yn gohirio'r symudiad o rai mathau o wastraff tipio anghyfreithlon, ond rhaid cynnwys y digwyddiadau hyn yn y mesur hwn.</p> <p>Dylai tipio anghyfreithlon ar y mathau o dir canlynol gael eu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• priffyrdd;</li> <li>• llwybrau troed/ceffyl;</li> <li>• ali cefn;</li> <li>• tir cyngor; a</li> <li>• cwrs/banc.</li> </ul> <p>Eithriwch y mathau canlynol o dir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rheilffordd;</li> <li>• amaethyddol;</li> <li>• preifat - preswyl;</li> <li>• priffyrdd an-fabwysiadwyd, aliau gefn a lonydd cefn;</li> <li>• masnachol/diwydiannol; ac</li> <li>• arall.</li> </ul>	

**Tai**

<b>Thema</b>	Tai: Atal digartrefedd
<b>Mesur</b>	Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref
<b>Teitl technegol</b>	Canran y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref
<b>ID</b>	PAM/012
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Mae teulu a fygythiwyd â digartrefedd yn deulu lle mae'r awdurdod yn fodlon bod y teulu yn cael ei fygwth â digartrefedd o fewn 56 diwrnod ac wedi eu hysbysu bod y ddyletswydd o dan Adran 66 Deddf Tai (Cymru) yn gymwys iddynt.</p> <p>Atal digartrefedd yw lle bydd awdurdod lleol yn cymryd camau positif i ddarparu cymorth Tai i deulu sy'n cael ei fygwth â digartrefedd.</p> <p>Er mwyn i gamau ataliol gael eu cofnodi fel bod yn llwyddiannus, rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod yr ymyrraeth yn debygol o arwain at atal digartrefedd am o leiaf 6 mis a bod y llety yn addas.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref
<b>Ffynhonnell</b>	Casgliad Data Digartrefedd, Llywodraeth Cymru
<b>Enwadur</b>	Nifer y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd
<b>Ffynhonnell</b>	Casgliad Data Digartrefedd, Llywodraeth Cymru



<b>Thema</b>	Tai: Eiddo gwag
<b>Mesur</b>	Canran o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd
<b>Teitl technegol</b>	Canran o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol
<b>ID</b>	PAM/013
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Mae eiddo gwag yn eiddo sy'n atebol am y Dreth Gyngor, sydd wedi bod heb ei feddiannu am gyfnod o 6 mis neu fwy.</p> <p>Nid yw hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail gartref neu gartref gwyliau.</li> <li>• Eiddo sydd ym mherchnogaeth unrhyw un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs);</li> <li>o Heddlu a Lluoedd Arfog;</li> <li>o Gwasanaeth Iechyd Gwladol;</li> <li>o prifysgolion a cholegau;</li> <li>o awdurdodau lleol a llywodraeth;</li> <li>o ystad y Goron; neu</li> <li>o eglwysi a chyrff crefyddol eraill.</li> </ul> </li> <li>• Eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ond nid at ddibenion preswyl.</li> <li>• Eiddo y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) wedi dileu'r band ohono.</li> </ul> <p>Mae'r canlynol yn gategoriâu camau uniongyrchol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i adfer eiddo i ddefnydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall sydd naill ai'n cael ei ddarparu neu ei hwyluso gan yr awdurdod lleol;</li> <li>• gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) neu gyfryngwr arall â'r arbenigedd perthnasol er mwyn chwilio am denant addas am yr eiddo;</li> <li>• camau gorfodi gan gynnwys hysbysiadau statudol;</li> <li>• llythyrau consesiwn treth (ar gais y perchennog);</li> <li>• pryniadau uniongyrchol trydydd parti a alluogir gan yr awdurdod lleol; neu</li> <li>• drafodaeth â'r perchennog lle bydd y perchennog wedi ymgysylltu â'r awdurdod lleol ac wedi ymateb iddo.</li> </ul>

<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	Nifer o eiddo sector preifat gwag
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr eiddo sector preifat a fu'n wag ers mwy na 6 mis ar 1 Ebrill
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Mae eiddo gwag yn eiddo sy'n atebol am y Dreth Gyngor, sydd wedi bod heb ei feddiannu am gyfnod o 6 mis neu fwy.</p> <p>Mae modd cael y data ar gyfer y mesur hwn o adran refeniw yr awdurdod lleol, y dylai fod ganddi wybodaeth ynghylch a yw'r Dreth Gyngor yn cael ei thalu ar yr eiddo. Cynhwyswch bob eiddo sy'n atebol am y Dreth Gyngor, yn y dosbarthiadau esemptiad canlynol, p'un a oes disgownt yn cael ei gymhwyso neu beidio ac sy'n wag ers mwy na 6 mis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>A. Eiddo heb ei feddiannu a heb ei ddodrefnu sy'n destun gwaith atgyweirio/ adnewyddu.</li> <li>C. Eiddo heb ei feddiannu a heb ei ddodrefnu.</li> <li>F. Eiddo heb ei feddiannu sy'n aros am brofiant.</li> <li>G. Eiddo heb ei feddiannu sydd heb ei feddiannu am fod meddiannaeth wedi ei gwahardd o dan y gyfraith.</li> <li>L. Eiddo heb ei feddiannu lle bo morgeisai mewn meddiant.</li> <li>Q. Eiddo heb ei feddiannu lle bo'r sawl a fyddai fel arfer yn talu'r Dreth Gyngor yn fethdalwr neu'n ymddiriedolwr ansolfent.</li> </ul> <p>Dylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dosbarthu o dan esemptiad C ac yna eu hail-fandio'n '0' neu 'sero' hefyd.</p> <p>Nid yw hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail gartref neu gartref gwyliau.</li> <li>• Eiddo sydd ym mherchnogaeth unrhyw un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs);</li> <li>o Heddlu a Lluoedd Arfog;</li> <li>o Gwasanaeth Iechyd Gwladol;</li> <li>o prifysgolion a cholegau;</li> <li>o awdurdodau lleol a llywodraeth;</li> </ul> </li> </ul>	

o ystad y Goron; neu  
o eglwysi a chyrff crefyddol eraill.

- Eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ond nid at ddibenion preswyl.
- Eiddo y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió (VOA) wedi dileu'r band ohono.

Dylai nifer yr eiddo sy'n wag ers o leiaf 6 mis gael ei gyfrif ar 1 Ebrill. Ni ddylid addasu'r ffigur hwn i gynnwys unrhyw eiddo sy'n cyrraedd y pwynt 6 mis yn ystod y flwyddyn.

Mae'r canlynol yn gategoriâu camau uniongyrchol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i adfer eiddo i ddefnydd:

- grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall sydd naill ai'n cael ei ddarparu neu ei hwyluso gan yr awdurdod lleol;
- gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) neu gyfryngwr arall â'r arbenigedd perthnasol er mwyn chwilio am denant addas am yr eiddo;
- camau gorfodi gan gynnwys hysbysiadau statudol;
- llythyrau consesiwn treth (ar gais y perchennog);
- pryniadau uniongyrchol trydydd parti a alluogir gan yr awdurdod lleol; neu
- drafodaeth â'r perchennog lle bydd y perchennog wedi ymgysylltu â'r awdurdod lleol ac wedi ymateb iddo.

Dylai awdurdodau lleol gadw cofnod manwl o'r camau uniongyrchol uchod at ddibenion archwilio.

Dylai eiddo gael ei gyfrif unwaith yn unig, p'un a yw wedi bod yn destun mwy nag un cam/ymyrraeth a arweiniodd at adfer ei ddefnydd. Dylai eiddo gael ei gyfrif unwaith yn unig hefyd, p'un a yw wedi bod yn destun ymyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol fel ei gilydd.

Rhaid i'r camau gan yr awdurdod lleol fod wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu flaenorol a chyn i ddefnydd yr eiddo gael ei adfer, er mwyn iddynt gael eu cyfrif.

Dylai eiddo y dilewyd ei fand sydd ar restr dreth 1 Ebrill, ond y dechreuwyd eu hailddefnyddio ac a gafodd eu hail-fandio yn ystod y cyfnod adrodd, gael eu cyfrif fel anheddau ychwanegol a grëwyd.

Lle bydd eiddo wedi ei is-rannu'n unedau ychwanegol mewn ymgais i ddechrau ei aildefnyddio, dim ond nifer gwreiddiol yr eiddo gwag a ddylai gael ei gynnwys. Er enghraifft, byddai tŷ sydd wedi ei drosi'n dri fflat ac wedi ei adfer i ddefnydd yn cyfrif fel creu dwy annedd ychwanegol.

<b>Thema</b>	Tai: Eiddo gwag
<b>Mesur</b>	Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ddechrau aildddefnyddio eiddo gwag
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr anheddau ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ddechrau aildddefnyddio eiddo gwag
<b>ID</b>	PAM/014
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	Dyma nifer yr anheddau ychwanegol a grëwyd wrth is-rannu eiddo yn anheddau ychwanegol mewn ymgais i ddechrau ei aildddefnyddio. Er enghraifft, byddai tŷ sydd wedi ei drosi'n dri fflat ac wedi ei adfer i ddefnydd yn cyfrif fel creu dwy annedd ychwanegol.
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Mae eiddo gwag yn eiddo sy'n atebol am y Dreth Gyngor, sydd wedi bod heb ei feddiannu am gyfnod o 6 mis neu fwy.</p> <p>Mae modd cael y data ar gyfer y mesur hwn o adran referniw yr awdurdod lleol, y dylai fod ganddi wybodaeth ynghylch a yw'r Dreth Gyngor yn cael ei thalu ar yr eiddo. Cynhwyswch bob eiddo sy'n atebol am y Dreth Gyngor, yn y dosbarthiadau esemptiad canlynol, p'un a oes disgownt yn cael ei gymhwyso neu beidio ac sy'n wag ers mwy na 6 mis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>A. Eiddo heb ei feddiannu a heb ei ddodrefnu sy'n destun gwaith atgyweirio/ adnewyddu.</li> <li>C. Eiddo heb ei feddiannu a heb ei ddodrefnu.</li> <li>F. Eiddo heb ei feddiannu sy'n aros am brofiant.</li> <li>G. Eiddo heb ei feddiannu sydd heb ei feddiannu am fod meddiannaeth wedi ei gwahardd o dan y gyfraith.</li> <li>L. Eiddo heb ei feddiannu lle bo morgeisai mewn meddiant.</li> <li>Q. Eiddo heb ei feddiannu lle bo'r sawl a fyddai fel arfer yn talu'r Dreth Gyngor yn fethdalwr neu'n ymddiriedolwr ansolfent.</li> </ul> <p>Dylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dosbarthu o dan esemptiad C ac yna eu hail-fandio'n '0' neu 'sero' hefyd.</p> <p>Nid yw hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail gartref neu gartref gwyliau.</li> <li>• Eiddo sydd ym mherchnogaeth unrhyw un o'r canlynol:</li> </ul>	

- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs);
- Heddlu a Lluoedd Arfog;
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- prifysgolion a cholegau;
- awdurdodau lleol a llywodraeth;
- ystad y Goron; neu
- eglwysi a chyrff crefyddol eraill.
- Eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ond nid at ddibenion preswyl.
- Eiddo y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) wedi dileu'r band ohono.

Dylai nifer yr eiddo sy'n wag ers o leiaf 6 mis gael ei gyfrif ar 1 Ebrill. Ni ddylid addasu'r ffigur hwn i gynnwys unrhyw eiddo sy'n cyrraedd y pwynt 6 mis yn ystod y flwyddyn.

Rhaid i'r camau gan yr awdurdod lleol fod wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu flaenorol a chyn i ddefnydd yr eiddo gael ei adfer, er mwyn iddynt gael eu cyfrif.

Dylai eiddo y dilewyd ei fand sydd ar restr dreth 1 Ebrill, ond y dechreuwyd eu haildefnyddio ac a gafodd eu hail-fandio yn ystod y cyfnod adrodd, gael eu cyfrif fel anheddau ychwanegol a grëwyd.

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Tai: Addasidau
<b>Mesur</b>	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)
<b>ID</b>	PAM/015
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt PSR/002
<b>Diffiniad</b>	<p>Caiff Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) eu rhoi gan yr awdurdod lleol, i helpu tuag at y gost o ddarparu addasiadau a chyfleusterau i bobl anabl, er mwyn iddynt allu symud o gwmpas eu cartrefi yn well, a hygyrchedd at gyfleusterau angenrheidiol y tu mewn iddo.</p> <p>Cynhwyswch unrhyw DFGs sy'n cael eu rhoi tuag at help darparu addasiadau a chyfleusterau ar gyfer yr iard, yr ardd, tai-allan a phopeth sy'n perthyn i'r annedd.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ddarparu DFG
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ddarparu'r holl DFGs yn ystod y flwyddyn ariannol
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	Nifer y DFGs a ddarparwyd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y DFGs a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ariannol
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Mae'r mesur hwn yn mesur yr holl DFGs mandeol wedi'u rhoi yn ystod y flwyddyn ariannol, ac fe ddylai delio gyda'r taliadau o'r DFGs ym mhob sector, ac nid dim ond perchnogion preswyl.</p> <p>Dylai nifer y diwrnodau calendr y mae'n cymryd o'r dyddiad cofnodedig cyntaf y cleient gyda'r awdurdod lleol yn gysylltiedig, yn benodol, gydag addasiad, lle wedyn caiff DFG ei gynnig -</p>	

hyd at y “dyddiad ardystiedig”. Ar yn ail, mewn achos cleient sy'n bodoli'n barod, dylai'r man cychwyn bod ar y dyddiad y caiff yr angen am asesiad ei godi'n gynaf, lle wedyn, caiff DFG ei gynnig naill ai gan y cleient neu'r awdurdod.

Lle cydnabyddir gwaith yn orfodol fel rhan o DFG, dylai'r cyfrif ddechrau ar y dyddiad y mae'r gwaith addasu'n orfodol hyd at y dyddiad y mae'r holl waith yn cael ei gwblhau – h.y. y “dyddiad ardystiedig”.

Rhaid i awdurdodau lleol cynnwys y nifer o ddiwrnodau calendr y mae'n cymryd i gwblhau'r holl gamau o'r broses DFG, gan ddilyn y cysylltiad cofnodedig cyntaf gyda'r cleient parthed y DFG. Lle'n gymwys, dylai hyn gynnwys y canlynol:

- asesiad Therapydd Galwedigaethol;
- anfon cais grant i'r cleient;
- cais wedi'i gwblhau yn cael ei dderbyn gan yr adran grantiau; a
- hysbysiad cymeradwyol ffurfiol yn cael ei ddanfon at y cleient.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Dylai DFGau nas ardystiwyd erbyn diwedd y flwyddyn gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur ar gyfer blwyddyn bresennol y mesur hwn. Mae hyn yn cynnwys DFGau na ellir eu hardystio yn sgil newid parhaol yn amgylchiadau'r cleient (er enghraifft, cleientiaid sydd wedi gadael yr ardal neu a fu farw). Yn yr un modd, dylai DFGau cleientiaid sy'n methu â chyflwyno ceisiadau o fewn amserlenni penodol ac y caiff eu hachosion eu cau yn sgil hynny, gael eu heithrio.

Os caiff unrhyw achos ei ailagor yn y dyfodol, dylid ei ystyried yn DFG newydd.

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Tai: Tai fforddiadwy
<b>Mesur</b>	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd
<b>ID</b>	PAM/036
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Mae tai fforddiadwy yn cyfeirio at dai lle mae mecanweithiau diogel ar waith i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r sawl sy'n methu fforddio tai ar y farchnad agored, ar y feddiannaeth gyntaf a dilynol.</p> <p>Diffinnir unedau tai fforddiadwy ychwanegol fel yr unedau tai fforddiadwy hynny a ddarperir drwy adeiladu o'r newydd, prynu, caffael, prydlesu neu drosi anheddau sy'n bodoli'n barod. Nid yw hyn yn cynnwys unedau fforddiadwy presennol sydd wedi cael eu hadnewyddu neu eu hailwampio, gan nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel bod yn ychwanegol. Fodd bynnag, lle bydd uned bresennol wedi ei throsi'n ddwy uned ar wahân, yna mae hyn yn cynrychioli darparu un uned fforddiadwy ychwanegol.</p> <p>Ceir diffiniad manylach o dai fforddiadwy yn <a href="#">ddatganiad cyntaf</a> ystadegol Llywodraeth Cymru 'Darparu tai fforddiadwy yng Nghymru'.</p> <p>Nid yw'r mesur hwn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw golled stoc tai fforddiadwy trwy ddymchwel neu werthu unedau yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y rhai mae awdurdodau lleol eu hun yn eu darparu yn ogystal â'r rhai a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs) a datblygwyr eraill y sector preifat neu wirfoddol sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol.</p> <p>Mae uned tai yn annedd hunangynhwysol sy'n darparu o leiaf un ystafell gyfanheddol, gyda defnydd unigryw cegin, ystafell ymolchi â baddon/cawod, sinc a thoiled.</p> <p>Diffinnir uned tai fel cael ei darparu pan fydd ar gael am feddiannaeth.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 10,000



Rhifiadur	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir
Teitl technegol	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn
Ffynhonnell	Casgliad data am ddarpariaeth tai fforddiadwy, Llywodraeth Cymru
Enwadur	Nifer o aelwydydd
Teitl technegol	Nifer o aelwydydd
Ffynhonnell	Amcanestyniadau Aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Tai: Ymatebolrwydd gwasanaethau landlordiaid
<b>Mesur</b>	Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i cwblhau holl atgyweiriadau
<b>ID</b>	PAM/037
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Dylai nifer y diwrnodau calendr y mae'n cymryd i gwblhau atgyweiriad cael eu mesur o'r dyddiad cafodd yr atgyweiriad ei roi dan sylw'r landlord a'i gofnodi'n gyntaf, i'r dyddiad y mae'r contractwr yn cadarnhau fod yr atgyweiriad wedi'i gwblhau.</p> <p><b>Sylwch:</b> Mae'r mesur hwn yn gymwys dim ond i'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cadw eu stoc tai.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur / Enwadur
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y diwrnodau i cwblhau holl atgyweiriadau yn ystod y flwyddyn
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y diwrnodau calendr wedi'u gymryd i cwblhau holl atgyweiriadau yn ystod y flwyddyn
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	Nifer yr atgyweiriadau wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr atgyweiriadau wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Dylai nifer y diwrnodau calendr y mae'n cymryd i gwblhau atgyweiriad cael eu mesur o'r <b>dyddiad</b> cafodd yr atgyweiriad ei roi dan sylw'r landlord a'i gofnodi'n gyntaf, i'r <b>dyddiad</b> y mae'r contractwr yn cadarnhau fod yr atgyweiriad wedi'i gwblhau.</p> <p>Cynhwyswch nifer y diwrnodau a gymerodd i cwblhau holl atgyweiriadau 'argyfwng', 'brys' a 'difrys'.</p> <p>Efallai caiff atgyweiriad brys gael ei gofnodi'n gyflawn ar ôl i'r risg dybryd cael ei leihau. Os oes angen mwy o waith i ddatrys y diffyg yn llawn, dylai cael ei drin fel hysbysiad ar wahân,</p>	

dan y categori priodol, ond ei ôl-ddyddio i'r dyddiad gwnaeth y tenant wneud ei ch/gais atgyweirio gwreiddiol.

**Ni ddylai'r** canlynol cael eu defnyddio fel rhesymau am ddiwygio'r nifer o ddiwrnodau calendr y mae'n cymryd i gwblhau'r atgyweiriadau:

- amser wedi'i gymryd gan gyn-archwiliadau;
- diffyg arian i gynnal yr atgyweiriadau;
- unrhyw amser sy'n mynd heibio cyn i'r cais atgyweirio cael ei basio i adran gynnal a chadw gan staff arall y landlord;
- unrhyw amser sy'n mynd heibio cyn i'r cais atgyweirio cael ei basio at gontractwr gan y landlord;
- unrhyw amser sy'n mynd heibio cyn i'r cais gael ei fewnbynnu i system cyfrifiadur;
- unrhyw oedi wrth gynnal yr atgyweiriadau gan gontractwr e.e. aros am gydrannau; neu
- oedi oherwydd systemau apwyntiadau.

Dylai'r holl atgyweiriadau wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod, naill ai wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod neu'n gynt, gael eu cynnwys yn y mesur hwn.

Cynhwyswch atgyweiriadau i gyfleusterau cymunedol. Dylai atgyweiriadau i gyfleusterau cymunedol cael eu cyfri unwaith yn unig ac nid yn erbyn pob un uned unigol y maent efallai yn effeithio.

Eithriwch:

- atgyweiriadau i garejys; a
- atgyweiriadau i eiddo gwag.

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Tai: Gwasanaethau landlordiaid – ansawdd tai
<b>Mesur</b>	Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)
<b>Teitl technegol</b>	Canran unedau stoc tai hunangynhwysol awdurdodau lleol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol, ar 31 Mawrth
<b>ID</b>	PAM/038
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yw safon ansawdd tai Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gofynnir i landlordiaid cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am nifer yr unedau stoc tai hunangynhwysol o fewn eu stoc sy'n cydymffurfio â'r safon yn ei chrynswth ar 31 Mawrth, gan gynnwys nifer yr anheddau sy'n cydymffurfio yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol.</p> <p>Caiff landlordiaid eu cyfarwyddo i gofnodi lle mae 'fethiant derbyniol' mewn sefyllfaoedd lle nad yw cydymffurfio'n llawn â'r safon ar gydrannau unigol i landlordiaid cymdeithasol o ganlyniad i gost-effeithiolrwydd y gwaith (er enghraifft, gwneud newidiadau strwythurol i'r cartref y gynyddu lle mewnol), amseriad y gwaith, lle bydd preswylwyr yn ymarfer dewis (er enghraifft, lle nad ydynt yn dymuno cael baddon a chawod yn eu hystafell ymolchi) neu lle bydd cyfyngiadau ffisegol i'r gwaith.</p> <p>Am ragor o wybodaeth am Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), gweler y <a href="#">datganiad ystadegol</a> cyntaf Llywodraeth Cymru.</p> <p><b>Sylwch:</b> Mae'r mesur hwn yn gymwys dim ond i'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cadw eu stoc tai.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur / Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS),
<b>Teitl technegol</b>	Nifer unedau stoc tai hunangynhwysol awdurdodau lleol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol, ar 31 Mawrth
<b>Ffynhonnell</b>	Casgliad data ansawdd tai cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Enwadur	Nifer y cartrefi
Teitl technegol	Nifer unedau stoc tai hunangynhwysol awdurdodau lleol ar 31 Mawrth
Ffynhonnell	Casgliad data ansawdd tai cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Tai: Effeithiolrwydd gwasanaethau landlordiaid
<b>Mesur</b>	Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag
<b>Teitl technegol</b>	Canran y debyd rhent wedi'i golli oherwydd bod unedau o lety parhaol sy'n gallu cael eu gosod yn wag yn ystod y flwyddyn
<b>ID</b>	PAM/039
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Llety parhaol yw llety sydd wedi ei osod gan y landlord ar sail barhaol h.y. ar sail naill ai tenantiaeth ddiogel neu denantiaeth gyflwyniadol.</p> <p>Caiff eiddo ei ddiffinio'n wag pan nad oes tenant yn anheddu'r eiddo. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unedau a gellir eu gosod sy'n aros am, neu'n destun i, atgyweiriad neu addasiad adeiladol mawr;</li> <li>• unedau a gellir eu gosod ble mae oedi ar ddechrau'r denantiaeth; ac</li> <li>• unedau newydd o'r dyddiad y mae'r contractwr yn eu trosglwyddo.</li> </ul> <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unedau a gellir eu gosod sy'n aros i'w dymchwel neu eu gwaredu, ble mae'r bwrdd rheoli/pwyllgor wedi cytuno i'w cymryd allan o incwm; a</li> <li>• eiddo sy'n cael ei ddefnyddio fel manau adleoli dros dro.</li> </ul> <p>Mae cyfanswm y debyd rhent ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unrhyw daliadau sy'n rhwymedigaeth y denantiaeth, megis taliadau am wasanaeth a threthi dŵr, os yw'n cael eu casglu gan y landlord;</li> <li>• gwerth cyfnodau rhent di-dâl;</li> <li>• gostyngiadau rhent wedi'u sicrhau i denantiaid; ac</li> <li>• y swm o rent wedi'i golli oherwydd anheddau gwag.</li> </ul> <p><b>Sylwch:</b> Mae'r mesur hwn yn gymwys dim ond i'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cadw eu stoc tai.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur
<b>Rhifiadur</b>	Cyfanswm y rhent wedi'i golli yn ystod y flwyddyn oherwydd bod eiddo yn wag
<b>Teitl technegol</b>	Cyfanswm y rhent wedi'i golli yn ystod y flwyddyn oherwydd bod unedau o lety parhaol a gellir eu gosod yn wag
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol

<b>Enwadur</b>	Cyfanswm y debyd rhent am y flwyddyn
<b>Teitl technegol</b>	Cyfanswm y debyd rhent am lety parhaol am y flwyddyn
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Llety parhaol yw llety sydd wedi ei osod gan y landlord ar sail barhaol h.y. ar sail naill ai tenantiaeth ddiogel neu denantiaeth gyflwyniadol. Dylai tenantiaethau sy'n cael eu hisraddio yn ystod y flwyddyn gael eu dosbarthu'n rhai parhaol at ddiben y mesur hwn.</p> <p>Caiff eiddo ei ddiffinio'n wag pan nad oes tenant yn anheddu'r eiddo. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unedau a gellir eu gosod sy'n aros am, neu'n destun i, atgyweiriad neu addasiad adeiladol mawr;</li> <li>• unedau a gellir eu gosod ble mae oedi ar ddechrau'r denantiaeth; ac</li> <li>• unedau newydd o'r dyddiad y mae'r contractwr yn eu trosglwyddo.</li> </ul> <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unedau a gellir eu gosod sy'n aros i'w dymchwel neu eu gwaredu, ble mae'r bwrdd rheoli/pwyllgor wedi cytuno i'w cymryd allan o incwm.</li> </ul> <p>Nodwch y dylai'r rhent wedi'i golli cael ei gyfrifo yn seiliedig ar y rhent newydd fel pe bai'r annedd wedi'i gosod yn syth ar ôl i'r denantiaeth flaenorol ddod i ben.</p> <p>Eithriwch rent wedi'i dalu ar gyfer garejys.</p> <p>Mae cyfanswm y debyd rhent ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• unrhyw daliadau sy'n rhwymedigaeth y denantiaeth, megis taliadau am wasanaeth a threthi dŵr, os yw'n cael eu casglu gan y landlord;</li> <li>• gwerth cyfnodau rhent di-dâl;</li> <li>• gostyngiadau rhent wedi'u sicrhau i denantiaid; ac</li> <li>• y swm o rent wedi'i golli oherwydd anheddau gwag</li> </ul> <p>Nid yw'r gwerth debyd rhent yn cynnwys ôl-ddyledion rhent wedi'u cario ymlaen o flynyddoedd gynt.</p>	

## Hamdden a Diwylliant

<b>Thema</b>	Hamdden a Diwylliant: Llyfrgelloedd
<b>Mesur</b>	Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd
<b>Teitl technegol</b>	Canran y Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (â thargedau) a gafodd eu cyflawni gan y gwasanaeth llyfrgelloedd
<b>ID</b>	PAM/040
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS) yw'r fframwaith sy'n gadael i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fonitro a yw gwasanaethau llyfrgell yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol. Yn ogystal, maent yn chwarae rôl werthfawr mewn cefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a'u nod yw darparu lefel fwy cyson o wasanaeth ledled Cymru.</p> <p>Mae'r fframwaith presennol, Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20, yn cynnwys 16 o Ddangosyddion Ansawdd, a ddefnyddir i fonitro ansawdd y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir.</p> <p>Mae gan deg o'r Dangosyddion Ansawdd hyn un neu fwy o dargedau penodol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r mesur perfformiad hwn yn adlewyrchu i ba raddau mae awdurdod lleol wedi cyflawni targedau'r Dangosyddion Ansawdd hyn.</p> <p>Mae pob Dangosydd Ansawdd â tharged yn werth 1 pwynt. Pan fydd gan Ddangosydd Ansawdd fwy nag un is-darged, mae pob targed yn werth cyfran gyfartal o'r 1 pwynt. Er enghraifft, os bydd gan Ddangosydd Ansawdd bedwar is-targed, mae pob un yn werth 0.25.</p> <p>Nodwch, cyhoeddir asesiad o berfformiad pob awdurdod lleol yn erbyn y safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru a gwblhawyd bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100



<b>Rhifiadur</b>	Nifer y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<b>Enwadur</b>	Nifer y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau)
<b>Teitl technegol</b>	Nifer y Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (â thargedau)
<b>Ffynhonnell</b>	Awdurdodau lleol
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Bydd y mesur yma yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio'r data a chyhoeddwyd yn adroddiadau blynyddol y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru pob awdurdod lleol. Byddwn yn cyrchu'r data'n uniongyrchol o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddibynnol ar gytundeb pob awdurdod lleol.</p> <p>Ceir deg dangosydd ansawdd â un neu fwy o dargedau penodol i'w cyrraedd gan awdurdodau lleol yn y fframwaith presennol 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20':</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- DASLLCC 3: Cymorth ar gyfer datblygiad unigol (4 is-targed)</li> <li>- DASLLCC 4: Cymorth ar gyfer iechyd a lles (5 is-targed)</li> <li>- DASLLCC 6: Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau llyfrgell (1 targed)</li> <li>- DASLLCC 7: Lleoliad mannau gwasanaeth (1 targed)</li> <li>- DASLLCC 9: Deunydd darllen cyfoes a phriodol (1 targed)</li> <li>- DASLLCC 10: Adnoddau yn Gymraeg (1 targed)</li> <li>- DASLLCC 11: Mynediad ar-lein (2 is-targed)</li> <li>- DASLLCC 12: Cyflenwi ceisiadau (2 is-targed)</li> <li>- DASLLCC 13: Lefelau staffio a chymwysterau (4 is-targed)</li> <li>- DASLLCC 16: Oriau agor (1 targed)</li> </ul> <p>Mae cyflawni'r targedau sy'n ymwneud â dangosydd ansawdd i gyd yn werth 1 pwynt. Lle mae yna mwy nag un is-targed, mae pob un yn werth rhan gyfartal o 1 pwynt. Er enghraifft, os yw pedwar is-targed sydd gan Ddangosydd Ansawdd, mae pob un yn werth 0.25.</p> <p>Am ragor o wybodaeth gweler <a href="#">Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru</a> â'u targedau.</p>	

[Yn ôl](#)**Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (â thargedau)**

Mae'r deg Dangosydd Ansawdd dilynol â'u targedau penodol yn cyfrannu at y mesur perfformiad yma:

<b>DASLLCC 3 - Cymorth ar gyfer datblygiad unigol (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) Cymorth TGCh	0.25
b) Sgiliau llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a digidol	0.25
c) Adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol;	0.25
d) Datblygu darllenwyr (oedolion a phlant)	0.25
<b>DASLLCC 4 - Cymorth ar gyfer iechyd a lles (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) (i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	0.2
a) (ii) Cynllun Llyfrau Llesol Cymru	0.2
a) (iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	0.2
a) (iv) Gwybodaeth am ffyrdd o fyw iachach	0.2
a) (v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	0.2
<b>DASLLCC 6 - Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau llyfrgell (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
b) Digwyddiadau/weithgareddau ar gyfer pobl sydd ag anghenion arbennig ym mhob man gwasanaeth sefydlog ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy.	1
<b>DASLLCC 7 - Lleoliad manau gwasanaeth (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
Lleoliad manau gwasanaeth	1
<b>DASLLCC 9 - Deunydd darllen cyfoes a phriodol (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) O leiaf 243 eitem am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl neu wario o leiaf £2,180 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl.	1
<b>DASLLCC 10 - Adnoddau yn Gymraeg (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) O leiaf 4% o'r gyllideb deunyddiau, neu, o leiaf £750 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg	1
<b>DASLLCC 11 - Mynediad ar-lein (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) (i) O leiaf 1 ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r rhyngwrwyd ym mhob llyfrgell sefydlog	0.5
a) (ii) Mynediad Wi-Fi ym mhob llyfrgell sefydlog	0.5
<b>DASLLCC 12 - Cyflenwi ceisiadau (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
a) O leiaf 64% o geisiadau am ddeunyddiau ar gael o fewn 7 diwrnod calendr	0.5

b) O leiaf 79% o geisiadau am ddeunyddiau ar gael o fewn 15 diwrnod calendr.	0.5
<b>DASLLCC 13 - Lefelau staffio a chymwysterau (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
i) Lefel staffio o 3.6 am bob 10,000 o'r boblogaeth	0.25
ii) Ni ddylai cyfanswm nifer y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl syrthio yn is na 0.65.	0.25
iii) Dylai'r Rheolwr Gweithredol fod â chymwysterau cydnabyddedig	0.25
iv) O leiaf 1% o gyfanswm oriau gwaith staff gael ei dreulio mewn hyfforddiant	0.25
<b>DASLLCC 16 - Oriau agor (1 Pwynt)</b>	
<b>Elfen</b>	<b>Pwyntiau</b>
i) Cyfanswm oriau agor dan ofal staff ledled yr holl fannau gwasanaeth nad yw'n llai na 120 awr y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth.	1

Mae disgrifiad llawn o bob un o'r dangosyddion â'u thargedau ar gael yn 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chwched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20'.

<b>Thema</b>	Hamdden a Diwylliant: Chwaraeon a hamdden
<b>Mesur</b>	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth
<b>Teitl technegol</b>	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 y boblogaeth
<b>ID</b>	PAM/017
<b>IDau eraill</b>	Yn gynt LCS/002b
<b>Diffiniad</b>	<p>Caiff cyfleusterau chwaraeon a hamdden eu diffinio fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pob canolfan chwaraeon a hamdden dan do gan gynnwys darpariaeth awyr agored megis meysydd tirwedd a chyrtiau awyr agored a reolir gan y ganolfan;</li> <li>• cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn yr awyr agored ar gyfer chwaraeon penodol, a lle y caiff mynediad iddynt neu'r defnydd ohonynt eu rheoli a/neu lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr drefnu ymlaen llaw.</li> </ul> <p>Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar safleoedd ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol sy'n bennaf ar gyfer gweithgarwch corfforol ac sydd ar gael i'w defnyddio gan y gymuned dan drefniant rheoli ffurfiol.</p> <p>Cynhwysir pob ymweliad â chyfleusterau chwaraeon a hamdden lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.</p> <p>Dylech eithrio ymwelwyr ag unrhyw gyfleuster nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pobl sy'n mynychu digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau chwaraeon e.e. ffeiriau hen bethau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir mewn canolfannau hamdden;</li> <li>• gwylwyr; ac</li> <li>• ymwelwyr â barrau neu gyfleusterau arlwyo mewn canolfannau hamdden.</li> </ul>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 1,000
<b>Rhifiadur</b>	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden

Teitl technegol	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
Ffynhonnell	Awdurdodau lleol
<b>Enwadur</b>	
Enwadur	Awdurdodau lleol
Teitl technegol	Awdurdodau lleol
Ffynhonnell	Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
<b>Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</b>	
<p>Cynhwyswch bob ymweliad â chyfleusterau chwaraeon a hamdden lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Nid yw hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pobl sy'n mynychu digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau chwaraeon e.e. ffeiriau hen bethau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir mewn canolfannau hamdden;</li> <li>• gwylwyr; ac</li> <li>• ymwelwyr â barrau neu gyfleusterau arlwyio mewn canolfannau hamdden.</li> </ul> <p>Dylech gynnwys holl cyfleusterau chwaraeon a hamdden a gaiff eu rheoli, eu prydlesu, neu eu contractio gan yr awdurdod lleol neu lle mae trefniadau ffurfiol eraill ar waith gydag ef. Mae hyn yn cynnwys canolfannau ar gontract allanol ar ffurf prydles neu wedi'u hisgontractio i ymddiriedolaeth allanol neu gynghorau cymunedol.</p> <p>Dylech gynnwys y defnydd y mae'r gymuned yn ei wneud o gyfleusterau chwaraeon a hamdden ysgol y tu allan i oriau ysgol pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Dylech eithrio cyfleusterau sydd ond at ddefnydd ysgolion, ac unrhyw gyfleusterau y mae disgyblion yn eu defnyddio fel rhan o'r cwricwlwm.</p> <p>Dylech eithrio ymweliadau i unrhyw gyfleusterau a gaiff eu rhedeg gan ymddiriedolaeth allanol neu gyngor cymuned, lle NAD yw'r awdurdod yn contractio'n ffurfiol i ddarparu'r gwasanaethau. Hynny yw NI chaiff cyfleusterau sy'n BERCHEN i gynghorau cymuned ac a gaiff eu rhedeg ganddynt eu hystyried fel rhan o ddarpariaeth awdurdod lleol, a dylid eithrio defnydd o'r rhain.</p> <p>Dylech eithrio adeiladau cyhoeddus eraill y gallai pobl wneud gweithgarwch corfforol ynddynt fel canolfannau cymunedol nad gweithgarwch corfforol yw eu prif ddiben.</p> <p>Dylech gynnwys y defnydd o gyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• meysydd sydd wedi'u marcio a'u cynnal a'u cadw yn benodol ar gyfer chwaraeon tîm awyr agored fel pêl-droed, rygbi, criced a hoci;</li> <li>• traciau a stadia athletau;</li> </ul>	

- cyrsiau a chyfleusterau golff (gan gynnwys cyrsiau 'pitch and putt'
- a phytio, meysydd ymarfer a lawntiau pytio, ond nid 'crazy golf');
- llethrau sgïo;
- cyrtiau pêl-fasged, pêl-rwyd a thennis;
- lawntiau bowlio; a
- canolfannau chwaraeon dŵr.

Nid oes unrhyw gyfyngiad maint ar y cyfleusterau i'w cynnwys, ar yr amod eu bod ar gael i'r gymuned yn bennaf at ddiben gweithgarwch corfforol.

Dylech eithrio'r defnydd o unrhyw gyfleuster na chaiff ei fesur yn fanwl gywir, a/neu lle nad yw pob ymwelydd o reidrwydd yn gwneud gweithgarwch corfforol, megis:

- darpariaeth awyr agored na chaiff ei neilltuo'n benodol ar gyfer chwaraeon fel parciau a mannau agored a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon anffurfiol;
- llwybrau cerdded neu loncian, llwybrau beicio, llwybrau ffitrwydd neu bethau tebyg;
- ardaloedd chwarae i blant, parciau byrddau sglefrio a meysydd chwarae antur
- defnydd dros dro o gyfleusterau awyr agored penodedig (h.y. heb drefnu ymlaen llaw);
- cyfleusterau lle y codir tâl am barcio car yn unig, ac nid yw'n ofynnol cofrestru/trefnu ymlaen llaw; a
- mynediad i gyfleusterau gan ddefnyddio tocyn tymor neu drwydded, lle na chaiff nifer yr ymweliadau ei gofnodi.

Ar gyfer achosion ar gyfer sawl defnyddiwr a chwaraeon /hyfforddiant timau, defnyddiwch y [ffactorau llusgi](#) i gyfrifo nifer y defnyddwyr. Ffactor llusgi yw nifer y defnyddwyr rydych yn eu cynnwys bob amser y mae trefniant/tocyn ar gyfer y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gofnodi. Mae'r ffactorau llusgi a argymhellir wedi'u seilio ar Ffactorau Lluosi Safonol Cenedlaethol (SNMF) Rhwydweithiau Perfformiad APSE.

Ar gyfer achosion o drefnu ymlaen llaw ar gyfer sawl defnyddiwr neu mewn bloc, lluoswch nifer yr achosion o drefnu ymlaen llaw â'r ffactorau llusgi priodol. Er enghraifft, os bydd tîm rygbi yn bwcio maes chwarae ar gyfer 10 gêm i oedolion, nifer y defnyddwyr fydd (10x33=) 330.

[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Hamdden a diwylliant – Gweithgarwch corfforol
<b>Mesur</b>	Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff
<b>Teitl technegol</b>	Canran cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a barhaodd i gymryd rhan yn y rhaglen ymarfer corff ar ôl 16-wythnos
<b>ID</b>	PAM/041
<b>IDau eraill</b>	-
<b>Diffiniad</b>	<p>Cynllun ymyrraeth iechyd yw'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymgorffori gweithgarwch corfforol a thechnegau newid ymddygiad i gefnogi cleientiaid sy'n cael eu hatgyfeirio i wneud newidiadau i'w dull o fyw er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles. Mae NERS yn targedu pobl sydd â chyflwr meddygol ac yn eu cefnogi i fynd yn fwy gweithgar.</p> <p>Mae NERS yn rhaglen o ymarfer corff bwrpasol 16-wythnos sy'n cael ei goruchwyllo gan weithiwr proffesiynol cymwys ym maes ymarfer corff.</p> <p>Dim ond cleientiaid sydd wedi mynychu eu hymgyngoriad cychwynnol a'u sesiwn ymarfer corff gyntaf yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu cynnwys.</p> <p>Ni chynhwysir cleientiaid sy'n mynychu eu hymgyngoriad cychwynnol ond a fethodd â mynychu eu sesiwn ymarfer corff gyntaf.</p> <p>Mae nifer y cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff yn cynnwys dim ond y cleientiaid hynny a gafodd eu hatgyfeirio ac a fynychodd eu sesiwn ymarfer corff gyntaf yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i gwblhau'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys y sawl a gwblhaodd y rhaglen yn y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Mae nifer y cleientiaid NERS a ddechreuodd y rhaglen ymarfer corff yn cynnwys y sawl y mae eu dyddiad terfyn 16-wythnos yn mynd i mewn i'r flwyddyn ganlynol.</p>
<b>Cyfrifiad</b>	Rhifiadur/Enwadur x 100
<b>Rhifiadur</b>	Nifer cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff

Teitl technegol	Nifer y cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a fynychodd eu sesiwn ymarfer corff gyntaf yn ystod y flwyddyn ac a barhaodd i gymryd rhan yn y rhaglen ymarfer corff ar ôl 16-wythnos
Ffynhonnell	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Enwadur	Nifer y cleientiaid NERS a ddechreuodd y rhaglen ymarfer corff
Teitl technegol	Nifer cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a fynychodd eu sesiwn ymarfer corff gyntaf, yn ystod y flwyddyn
Ffynhonnell	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)



[Yn ôl](#)

<b>Thema</b>	Hamdden a diwylliant – Gweithgarwch corfforol
<b>Mesur</b>	Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff
<b>Teitl technegol</b>	Canran cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a adroddodd godiad mewn munudau hamdden ar ôl 16-wythnos
<b>ID</b>	PAM/042
<b>IDau eraill</b>	-
